# Cofnodion Pwyllgor Y Ty

## HC(2) 04-05 (Cof)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 21 Ebrill 2005 |
| **Amser:** | 9.00am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad, Bae Caerdydd |

### Aelodau'n bresennol:

Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)

Lorraine Barrett, AC Llafur

Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol

William Graham, AC Ceidwadwyr

Janice Gregory, AC Llafur

Jane Hutt, AC Llafur

Owen John Thomas, AC Plaid Cymru

Y Llywydd (yn bresennol)

### Swyddogion yn bresennol:

Paul Silk, Clerc y Cynulliad

Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty

Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad

Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau

Andrew George, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr *(rhan o'r cyfarfod)*

Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol

Wayne Cowley, Pennaeth Swyddfa Ffïoedd

Nerys Evans, Pennaeth Rheoli Swyddfeydd a Chyfleusterau

Mike Snook, Pennaeth y Gangen Adnoddau Dynol *(rhan o'r cyfarfod)*

Cath Morris, Ysgrifennydd Preifat i'r Dirprwy Lywydd

Gill Lambert, Gwasanaeth Addysg a Gwybodaeth i'r Cyhoedd *(ar gyfer eitem 2.13 ar yr agenda)*

Gareth Brydon, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty

| | |
|---|---|
| **1** | **Cofnodion y cyfarfod blaenorol a chamau gweithredu sy'n deillio ohonynt** |
| | Nododd Aelodau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror wedi eu cyhoeddi ar 25 Chwefror 2005. Cyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2005 gofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 24 Chwefror. |
| **1.1** | **Camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod blaenorol HC(2)-04-05(p1)** |
| | Staff Glanhau<br><br>Adroddodd y Cadeirydd ar agweddau ar delerau ac amodau staff glanhau a gyflogwyd gan gontractwr allanol. Cytunodd y Pwyllgor y dylai Pwyllgor y Ty weld rhestr o gontractau a osodwyd gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad fel y gallai wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylid ystyried rhai yn fwy manwl wrth i'r broses dendro agosáu.<br><br>Gweithredu: Nerys Evans |
| **2** | **Eitemau i Benderfynu arnynt** |

| | |
|---|---|
| **2.1** | **Trafodion y Cynulliad – cynlluniau wrth gefn HC(2)-04-05(p2)** |
| | Cytunodd yr Aelodau ar y trefniadau ar gyfer cynnal y Cyfarfod Llawn pe na bai modd, yn annisgwyl, ddefnyddio'r Siambr bresennol. Rhoddir manylion yn y man.<br><br>Gweithredu: Andrew George |
| **2.2** | **Cynllun Cydraddoldeb Hiliol – Cynllun Gweithredu Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad HC(2)-04-05(p3)**<br><br>**Cytunodd Pwyllgor y Ty ar Gynllun Gweithredu Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.** |
| **2.3** | **Ysmygu ar Dir y Cynulliad HC(2)-04-05(p4)** |
| | Hysbyswyd yr Aelodau am Bolisi Ysmygu newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cytunodd Pwyllgor y Ty y dylid ceisio barn ar y cynigion, a hynny oddi wrth Aelodau, eu staff, pob gwas sifil a leolwyd yn yr adeilad a phawb arall a leolwyd yn yr adeilad.<br><br>Gweithredu: Mike Snook |
| **2.4** | **Sgrinio Ffordd o Fyw HC(2)-04-05(p5)** |
| | Gwahoddwyd Aelodau i ystyried gweithredu rhaglen sgrinio ffordd o fyw oddi mewn i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad a fyddai'n cynnwys Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad. Cytunodd Pwyllgor y Ty y byddai'n cefnogi cyflwyno rhaglen wirfoddol ar gyfer ACau a'u Staff Cymorth, ynghyd â rhaglen ar gyfer staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Ni ddylid cadw unrhyw fanylion personol gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad, â llaw nac ar gyfrifiadur. Dywedodd y Cadeirydd y dylid archwilio'r posibilrwydd o ddarparu gwiriadau iechyd unwaith y byddai sgrinio ffordd o fyw yn cael ei weithredu.<br><br>Gweithredu: Mike Snook |
| **2.5** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf am yr Adeilad Newydd HC(2)-04-05(p6)** |

Nododd Pwyllgor y Ty y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cynnydd presennol. Cytunodd yr Aelodau ar y canlynol:

1. Derbyn y darn o dir sydd wedi ei balmantu ym mhen y safle sydd ger Glanfa'r Cynulliad, yn amodol ar gwblhau'n foddhaol ac ymchwiliadau ynghylch dwr yn cronni yn ystod cyfnodau o dywydd gwlyb.

   Gweithredu: Dianne Bevan

2. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r oriau agored ar gyfer y cyhoedd yn yr adeilad newydd ymestyn i'r nosweithiau yn ystod y misoedd goleuach os oedd hynny'n bosibl. Byddai papur manylach yn ymdrin â threfniadau ymwelwyr yn cael ei gyflwyno cyn toriad yr haf.

   Gweithredu: Dianne Bevan

3. Cytunodd Pwyllgor y Ty â chais yr Urdd i gau Pierhead Street a Harbour Drive, ar yr amod bod gan yr Aelodau a'u staff a'r rhai gyda hwy fynediad o hyd i Adeilad Glanfa'r Cynulliad drwy ddangos cardiau diogelwch.
4. Nododd yr Aelodau y camau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas â'r gorchmynion ar gyfer y Ddesg Wybodaeth arfaethedig a Chabinet y Byrllysg.
5. Cytunodd Pwyllgor y Ty y byddai'n bosibl cymryd lluniaeth i mewn i ystafelloedd Pwyllgora yn yr adeilad newydd. Fodd bynnag, cytunwyd y dylid mynd ag unrhyw lestri allan o'r ystafelloedd ar ddiwedd y cyfarfod, a mynegwyd y farn y byddai o gymorth pe bai tywysyddion yn bresennol yn yr ystafelloedd pwyllgora neu gerllaw.

   Gweithredu: Nerys Evans

6. Yr oedd yr Aelodau'n fodlon i'r Siambr bresennol gael ei defnyddio fel 'ystafell uwch-bwyllgora' ar ôl i'r adeilad newydd gael ei agor, ond cytunasant na ddylid gwneud unrhyw addasiadau tan fod y siambr newydd yn llawn weithredol.
7. Ystyriodd Pwyllgor y Ty gynnig o rodd, sef cyfieithiad William Morgan o'r Beibl, ynghyd â chyfieithiad diweddar yn y Gymraeg a'r Saesneg.

   Wrth ystyried a ddylid derbyn y rhodd, trafododd yr Aelodau arwyddocâd hanesyddol a llenyddol cyfieithiad William Morgan. Cytunodd Pwyllgor y Ty i dderbyn y rhodd, i'w gadw mewn modd addas yn Llyfrgell yr Aelodau.

   Gweithredu: Catherine Morris/Karin Phillips

| | |
|---|---|
| **2.6** | **Model o'r Adeilad Newydd HC(2)-04-05(p7)** |
| | Gofynnwyd i'r Aelodau wneud penderfyniad ynghylch a ddylid prynu model y pensaer o'r Adeilad Newydd i'w gynnwys yn yr arddangosfa yn Adeilad Glanfa'r Cynulliad. Byddai'r model yng nghanol yr arddangosfa.<br><br>Yn amodol ar gytuno ar bris o £30,000 (gan gynnwys arteffactau addas eraill), derbyniodd yr Aelodau y cynnig.<br><br>**Gweithredu: Gwen Parry** |
| **2.7** | **Hollti Cyllideb y Gwasanaeth Cyfieithu HC(2)-04-05(p8)** |
| | Nododd Pwyllgor y Ty y papur a chytuno ar y trosglwyddiad cyllidol arfaethedig i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Trafododd yr Aelodau yn fyr y ddarpariaeth o gyfleuster cyfieithu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn eu rôl etholaethol. Cytunwyd y dylid cyflwyno papur pellach i Bwyllgor y Ty ym mis Mehefin.<br><br>Gweithredu: Gwen Parry |
| **2.8** | **Llogi Ceir dan drefniant Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad HC(2)-04-05(p9)** |
| | Derbyniodd yr Aelodau yr argymhelliad, fel datrysiad dros dro, i gynyddu lwfansau costau teithio cyflogedigion ar gyfer defnyddio'u ceir eu hunain. Bydd y mater yn cael ei adolygu. |
| **2.9** | **Bws Gwennol HC(2)-04-05(p10)** |
| | Gofynnwyd i Bwyllgor y Ty ystyried llwybr y bws a'r dewisiadau ynghylch arosfannau ar gyfer adnewyddu contract y bws gwennol, ac ystyried cais oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyfrannu at gyllido'r gwasanaeth.<br><br>Trafododd yr Aelodau y defnydd a wneir o'r gwasanaeth. Nodwyd nad oedd dadansoddiad ar gael o'r nifer o bobl a ddefnyddiai'r gwasanaeth o blith gweithwyr staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a staff y Llywodraeth. Cytunwyd bod y wybodaeth honno'n angenrheidiol i alluogi'r Pwyllgor i ffurfio barn.<br><br>Gofynnwyd i Nerys Evans gynnal arolwg i sefydlu pa ddefnydd a wneir o'r gwasanaeth ac i sefydlu beth yw'r safbwyntiau am y gwasanaeth. Byddai hynny'n cael ei gyfuno â'r arolwg ar ysmygu. Byddai Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn rhoi cyngor ystadegol. |

| | |
|---|---|
| | Gweithredu: Nerys Evans/Karin Phillips |
| **2.10** | **Cynllun Pensiwn Staff Cynnal Aelodau'r Cynulliad – ymgynghoriad HC(2)-04-05 (p11)** |
| | Rhoddodd Wayne Cowley y wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor y Ty ar y cynnydd a wnaed mewn ynghynghori ynghylch y cynllun. Nododd yr Aelodau yr adroddiad hwn. |
| **2.11** | **Cynllun Trafnidiaeth â Chymhorthdal i Ysgolion sy'n mynychu Pwyllgorau Rhanbarth HC(2)-04-05(p12)** |
| | Cytunodd Pwyllgor y Ty i estyn y cynllun trafnidiaeth â chymhorthdal i ymweliadau ysgolion a cholegau â'r Cynulliad i gynnwys mynychu Pwyllgorau Rhanbarth. Gofynnwyd i Gwen Parry baratoi adroddiad ar y defnydd cyfredol o'r cyfleuster.<br><br>Gweithredu: Gwen Parry |
| **2.12** | **Oriau Agor y Llyfrgell HC(2)-04-05(p13)** |
| | Gofynnwyd i Bwyllgor y Ty ystyried newid oriau agor Llyfrgell yr Aelodau. Nodwyd bod y Llyfrgell bellach ynghau ar yr adeg cau o 6.00pm ar ddyddiau Cyfarfodydd Llawn, gan atal mynediad i Aelodau. Cytunodd Pwyllgor y Ty ar y newidiadau i'r oriau agor a gofynnwyd a allai Aelodau gael 'mynediad â cherdyn llithro' i'r Llyfrgell ar ôl iddi gau ar ddyddiau Cyfarfodydd Llawn. Cytunodd Karin Phillips i ymchwilio.<br><br>Gweithredu: Karin Phillips |
| **2.13** | **Plac Coffa HC(2)-04-05(p14)** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Gill Lambert a oedd yn mynychu ar gyfer yr eitem hon. Fe wnaeth hi atgoffa Pwyllgor y Ty am gefndir y cais i gael plac coffa i'w gynhyrchu fel cofrodd, a fyddai ar gael i Aelodau'r Cynulliad ei brynu o siop y Cynulliad.<br><br>Ystyriodd yr Aelodau nifer o opsiynau ar gyfer y plac. Cytunwyd y dylid archebu stoc o blaciau gwydr dwyieithog fforddiadwy. Gofynnodd yr Aelodau a ellid darparu cynllun pwrpasol, i fod ar gael, os oedd hynny'n bosibl, yn y cyfarfod nesaf ar 19 Mai. Byddai unrhyw eitemau fforddiadwy o lechi yn cael eu hystyried hefyd yn y cyfarfod hwnnw.<br><br>Gweithredu: Gill Lambert |

| | |
|---|---|
| **2.14** | **Gwahanu Rhwng Canghennau Gweithredol a Chyfreithiol y Cynulliad HC(2)-04-05(p15)** |
| | Gofynnwyd i Bwyllgor y Ty ystyried nifer o faterion, yn arbennig rhai a fyddai, efallai, yn effeithio ar staff, cyn i unrhyw Bapur Gwyn gael ei gynhyrchu.<br><br>Cytunodd yr Aelodau y dylid ymgynghori'n fanwl â Phwyllgor y Ty ynghylch unrhyw gynigion. Mynegodd y Pwyllgor ymhellach ei fod yn derbyn, yn gyffredinol, y dylai'r egwyddorion canlynol gael eu cynnwys mewn unrhyw Bapur gwyn:<br><br>• dylai'r Cynulliad gael y pwer i basio neu wrthod y ddeddfwriaeth a gâi ei chynnig gan weithrediaeth Cymru;<br>• dylid creu Cronfa Gyfunol Cymru, gan ddilyn model Cronfa Gyfunol yr Alban, gyda thrafodion tebyg;<br>• dylid cael dull i ollwng Llywodraeth ymaith os nad oes gan yr Aelodau unrhyw hyder ynddi;<br>• dylai'r cyfrifoldeb o ysgrifennu Rheolau Sefydlog y Cynulliad newydd fod yn gyfrifoldeb Aelodau'r Cynulliad cyfredol;<br>• dylid creu Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol statudol fel corff corfforaethol i ddarparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau y bydd eu hangen ar y Ddeddfwrfa, ac i gyflogi ei staff;<br>• dylid penodi staff y Ddeddfwrfa ar sail teilyngdod yn unig, yn dilyn cystadleuaeth agored; dylai fod ganddynt delerau ac amodau sy'n ymgeisio at fod fel rhai deddfwrfeydd eraill oddi mewn i'r Deyrnas Unedig ac sy'n gyfartal o leiaf â rhai y Gwasanaeth Sifil; a dylent aros oddi mewn i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.<br><br>I gyfleu barn Pwyllgor y Ty, cytunodd mwyafrif yr Aelodau y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu ar unwaith at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cyfansoddiadol. Byddai cyfarfod ychwanegol yn cael ei alw ar ôl yr Etholiad Cyffredinol pe bai angen rhoi ystyriaeth frys bellach. Cytunodd Aelodau y dylai staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad gael gwybod beth yw barn y Pwyllgor am amodau'r staff a'r camau gweithredu a gymerwyd.<br><br>Gweithredu: Paul Silk |
| **3.** | **Eitemau i'w Nodi** |

| | |
|---|---|
| **3.1** | **Arolwg Agwedd Staff HC(2)-04-05(p16)** |
| | Adroddodd Paul Silk fod ymatebion niferus staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn Arolwg Agwedd Staff 2004 yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn ffafriol, ond cafwyd ymateb negyddol mewn rhai meysydd. Yr oedd gwaith ar y gweill i nodi unrhyw broblemau a'u datrys. Yr oedd uwch-reolwyr wedi ymrwymo i gyflwyno gwelliannau lle'r oedd hynny'n bosibl.<br><br>Cytunodd Paul Silk i anfon at yr Aelodau y cyswllt at yr adroddiad ar y fewnrwyd.<br><br>Gweithredu: Paul Silk |
| **3.2** | **Cyfarfod Is-grwp Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu:**<br><br>**Cyfarfod 2 Chwefror 2005 HC(2)-04-05(p17)** |
| | Cymeradwyodd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod.<br><br>Wrth ymateb i drafodaeth am y dyraniad cyfrifiaduron i Staff Cynnal, adroddodd Gwen Parry fod y mater yn un o bwys a etifeddwyd o ddyddiau cynnar y Cynulliad. Yr oedd hi'n llunio rhestr o'r dechnoleg wybodaeth a ddelir gan bob un o Aelodau'r Cynulliad. Fodd bynnag, dylai'r rhaglen diwygio technoleg fod o gymorth i liniaru'r broblem.<br><br>Trafododd yr Aelodau yn fyr y ddarpariaeth o gydrannau ar gyfer clustiau yn y clustffonau a ddefnyddir mewn cyfarfodydd Pwyllgor. Nodwyd nad oedd rhai clustffonau, ar brydiau, yn gweithio ac y gallent fod yn anghyfforddus i'w gwisgo i'r rhai a oedd yn drwm eu clyw ac yn gorfod eu gwisgo am gyfnodau maith. Gofynnwyd i Gwen Parry ystyried y mater a sicrhau bod cyfforddusrwydd yn ystyriaeth wrth archebu clustffonau eraill i'w cyfnewid am y rhai presennol.<br><br>Gweithredu: Gwen Parry |
| **3.3** | **Is-grwp Arlwyo, Cyfarfod ar 16 Mawrth 2005, HC(2)-04-05(p18)** |

| | |
|---|---|
| | Ystyriodd yr Aelodau y cofnodion. Mewn cysylltiad â Pharlwr Te yr Aelodau ar dudalen 3, cytunodd Pwyllgor y Ty na ddylid gosod peiriant gwerthu yn yr ystafell.<br><br>Rhoddodd Janice Gregory brîff i Bwyllgor y Ty ynglyn â chyfarfod y bu hi ynddo gydag uwch-gynrychiolwyr yr arlwywyr, Avenance.<br><br>Yn gysylltiedig â pharagraff 6 y cofnodion ynglyn â chymwysiadau posibl i'r cyfleusterau bwyta ar gyfer yr Aelodau, Cytunodd yr Aelodau yr hoffent weld manylion pellach am yr amcangyfrifon o'r gyllideb a ddyfynnwyd.<br><br>Cytunodd yr Aelodau y dylid gweithredu'r adolygiad tariffau.<br><br>Yng nghyswllt manylebau'r contract arlwyo a'r angen opsiynol am Gogydd Gweithredol, dywedodd yr Aelodau y dylid hepgor hynny fel opsiwn o dan y contract. Dylid ailddrafftio'r fanyleb i ddatgan y bwriedir contractio Cogydd Gweithredol ar wahân i'r Cynulliad neu y cyflogid yn uniongyrchol ac y ceisid barn y tendrwyr ar y rhyngweithiad rhwng y swydd honno a'r prif gontract arlwyo.<br><br>Trafododd yr Aelodau yn fyr nifer o faterion eraill, gan gynnwys ansawdd y bwyd a weinyddir yn y Parlwr Te presennol a'r amser a gymerir i baratoi prydau. Cytunodd Nerys Evans i ymchwilio.<br><br>Cymeradwyodd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod, yn amodol ar yr uchod.<br><br>Gweithredu: Nerys Evans |
| **3.4** | **Is-grwp Celf, Cyfarfod ar 9 Chwefror 2005, HC(2)-04-05(p19)** |
| | Ystyriodd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod. Cytunodd Pwyllgor y Ty ar y bwriad i gynnal arddangosfa ffotograffig dros dro o waith ffotograffig yr Aelodau yn y Neuadd ym mis Gorffennaf.<br><br>Cymeradwyodd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod. |
| **3.5** | **Papur ar Berfformiad yn ôl Targedau, HC(2)-04-05(p20)** |
| | Wrth nodi'r papur, gofynnodd Pwyllgor y Ty i'w longyfarchiadau gael eu cyfleu i Gofnod y Trafodion am gynhyrchu'r Cofnod cyflawn ddwyieithog o fewn 24 awr ar ôl y Cyfarfodydd Llawn.<br><br>Gweithredu: Gwen Parry |

| | |
|---|---|
| **3.6** | **Adroddiad Cyllid HC(2)-04-05(p21)** |
| | Nododd Pwyllgor y Ty y trosolwg ar y ffigurau diwedd blwyddyn amodol fel yr oeddent ar ddiwedd Mawrth o gymharu â chyllidebau'r flwyddyn ariannol ar gyfer 2004-05. Byddai'r papur yn cael ei gyflwyno eto i'r pwyllgor nesaf, gan na chafodd yr Aelodau ddigon o amser i'w ystyried.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau i'r ffigurau diwedd blwyddyn terfynol oedd yn adlewyrchu'r Cyfrifon Adnoddau Cymwysedig gael eu cyflwyno yng nghyfarfod Pwyllgor y Ty ym mis Mehefin. Gofynnodd yr Aelodau hefyd i'w llongyfarchiadau gael eu cyfleu i'r Swyddfa Ffïoedd am eu gwaith caled yn ystod y trosglwyddo ar ôl y newidiadau i gyflogau a lwfansau'r Aelodau.<br><br>Gweithredu: Wayne Cowley |
| **3.7** | **Gweithgareddau Tramor a Chysylltiadau Allanol HC(2)-04-05(p22)** |
| | Nododd yr Aelodau y papur. |
| **3.8** | **Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth HC(2)-04-05(p23)** |
| | Nododd yr Aelodau y papur. |
| **4.** | **Materion a gyfeiriwyd gan gynnwys Cwestiynau'r Cynulliad** |
| **4.1** | **WAQ41342**<br><br>**Nododd yr Aelodau fod yr ateb a gyflwynwyd ar 3 Chwefror wedi ei gylchredeg iddynt.** |
| **4.2** | **OAQ0003(HC)**<br><br>**Nododd yr Aelodau fod yr ateb a gyflwynwyd ar 3 Chwefror wedi ei gylchredeg iddynt.** |
| **5.** | **Unrhyw Fater Arall** |

| | |
|---|---|
| 5.1 | Dwr Yfed yng nghyfarfodydd Pwyllgor y Ty<br><br>Cytunodd yr Aelodau y dylai dwr fod ar gael yn y cyfarfodydd yn y dyfodol.<br><br>Gweithredu: Gareth Brydon |
| **5.2** | **Gweithdrefnau Gadael yr Adeilad o Achos Tân** |
| | Mynegodd yr Aelodau eu pryder oherwydd y dryswch diweddar ynghylch gweithredu'r larwm tân. Efallai y byddai datganiad ar yr uchelseinydd o gymorth mewn cysylltiad â gweithdrefnau gwagio'r adeilad. Gofynnwyd i Dianne Bevan roi cyflwyniad llafar ar y wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor y Ty.<br><br>Gweithredu: Dianne Bevan |
| **5.3** | **Darllediadau Pleidiau Gwleidyddol o'r Neuadd** |
| | Mynegwyd pryder gan rai Aelodau ynghylch y diffyg canllawiau ar gyfer darllediadau gwleidyddol o Neuadd y Cynulliad. Ar ôl trafodaeth, gofynnodd y Cadeirydd i'r canllawiau presennol ar ffilmio gael eu cyflwyno i gyfarfod o Bwyllgor y Ty ac i'r canllawiau hynny gael eu cymharu â chanllawiau o ddeddfwrfeydd eraill yn y DU.<br><br>Gweithredu: Gwen Parry/Nerys Evans |
| **5.4** | **Darpariaethau Gofalu am Blant** |
| | Hysbyswyd yr Aelodau gan Jane Hutt fod gwaith ar derfynu arolwg bron â'i gwblhau, a bod posibilrwydd o wahodd cyflogwyr eraill ym Mae Caerdydd i gymryd rhan mewn cynllun. Diolchodd i Dianne Bevan am y gwaith a wnaed. |
| **5.5** | **Codiadau Cyflog Staff** |
| | Gofynnodd Wayne Cowley i Bwyllgor y Ty roi ei awdurdod i dalu codiadau cyflog hwyr i Staff Cynnal pedwar o Aelodau'r Cynulliad. Cytunodd yr Aelodau â'r bwriad.<br><br>Gweithredu: Wayne Cowley |
| | Dyddiad y cyfarfod nesaf: 19 Mai 2005<br><br>Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty |